# Adran Addysg

## Gweithdrefnau Tywydd Garw, Gaeaf 2023-24
## Canllawiau i Ysgolion

Yng Ngwynedd mae cyfnodau o dywydd garw yn gymharol anghyffredin ac eithriadau prin yw'r adegau ble mae'n rhaid i ysgolion gau mewn amgylchiadau o'r fath. Serch hynny, mae'n bwysig fod pob Corff Llywodraethol yn sicrhau bod trefniadau clir yn eu lle ar gyfer yr adegau prin hynny ble mae'n rhaid i rai plant gael eu hanfon adref yn fuan neu ble gorfodir ysgol gyfan i gau oherwydd tywydd garw i sicrhau diogelwch a lles yr holl blant a'r staff.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu arfer da mewn perthynas â thywydd garw. Mater i Gyrff Llywodraethol yw llunio gweithdrefnau ar gyfer eu hysgol ac i sicrhau fod pob aelod o staff yn glir ynglŷn â'u rôl a'u cyfrifoldeb pan ddigwydd tywydd garw.

1. Dylid ystyried pob penderfyniad mewn perthynas â chau ysgol neu anfon plant adref yn gynnar yng nghyd-destun y ffaith fod gan pob plentyn hawl i 190 diwrnod o addysg yn flynyddol, ac fod gan nifer ohonynt hefyd yr hawl i ginio am ddim.

2. Cyfrifoldeb y pennaeth yw penderfynu a ddylid cau a'i peidio. Bydd y penderfyniad yn ddibynnol ar asesiad o'r ffactorau perthnasol gan gynnwys y rhagolygon tywydd, y sefyllfa yn ardal yr ysgol, sefyllfa aelodau staff mewn perthynas â theithio, a.y.y.b. Nid yw'r ffaith fod pennaeth yn methu cyrraedd ynddo'i hun yn reswm i beidio agor.

3. Fe all fod mai rhai plant yn unig sydd angen eu hanfon adref yn fuan, h.y. mewn nifer o sefyllfaoedd ond y plant sy'n teithio ar gludiant ysgol neu'r plant sy'n byw mewn rhai rhannau o'r dalgylch fydd angen mynd adref yn fuan. Dylid ystyried pob opsiwn cyn cymryd penderfyniad i gau ysgol.

4. Dylai ysgolion gadw asesiadau risg Tywydd Garw yn gyfredol – amgaeir enghreifftiau ar gyfer defnydd ysgolion, i'w mabwysiadu a'u diweddaru gan Gyrff Llywodraethol.

5. Darperir **'Rhestr Wirio Cau Ysgol Mewn Tywydd Eithafol'** i gynorthwyo pennaeth gyda'r penderfyniad i gau ysgol neu beidio.

**System Digwyddiadau Argyfwng – Ysgolion Wedi Cau**

6. Pan gymerir penderfyniad i gau ysgol **dylai'r pennaeth hysbysu'r Adran Addysg drwy ddefnyddio'r system 'Digwyddiadau Argyfwng - Ysgolion Wedi Cau'** www.gwynedd.llyw.cymru/cau

7. Mae'r system digwyddiadau argyfwng ysgolion wedi cau yn darparu gwybodaeth rheolaidd i'r cyfryngau ynglŷn ag ysgolion sydd ar gau, fel bydd yr wybodaeth yn cael ei gynnwys yn y bwletinau newyddion perthnasol ac yn galluogi rhieni i dderbyn gwybodaeth amserol. Dylai ysgolion ystyried a oes angen sefydlu trefniadau eraill i hysbysu rhieni gan ei bod yn annhebygol y bydd pob rhiant yn gwrando ar fwletinau newyddion. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer sefyllfaoedd ble mae ysgol yn cau yn ystod y dydd a phlant yn cael eu hanfon adref yn fuan. Ble nad yw'n bosib, neu yn ymarferol, i hysbysu pob rhiant fod y plant yn cael eu hanfon adref dylai gweithdrefnau'r ysgol nodi i ba raddau y mae'n briodol, yn enwedig yn achos plant ifanc, i gadw'r plant ar safle'r ysgol hyd nes y cânt eu casglu. Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i sefyllfa plant ag anghenion arbennig. Dylid adolygu'r trefniadau yma yn rheolaidd i sicrhau eu bod mor effeithiol ag y gallent fod.

**Cludiant**

8. Mewn achos ble mae darparwyr cludiant yn hysbysu'r ysgol eu bod yn awyddus i gludo rhai plant adref yn fuan, dylid cydsynio i'r cais. Cyfrifoldeb y darparwr yw cludo'r plant adref yn ddiogel ac wrth wneud cais o'r fath fe fydd y darparwr yn ymateb i rybuddion tywydd neu dystiolaeth uniongyrchol fod y sefyllfa mewn perthynas â'r tywydd yn gwaethygu. Ni ddylai cais o'r fath o reidrwydd arwain at benderfyniad i anfon pob plentyn adref yn fuan. Os nad yw darparwr yn abl i ddarparu bws neu dacsi yn y bore oherwydd tywydd garw, yna ni fydd y cludiant hynny ar gael yn y prynhawn. Dylid hysbysu unrhyw rieni sydd wedi penderfynu cludo eu plant i'r ysgol dan amgylchiadau o'r fath bod angen iddynt drefnu i gludo'r plant adref yn y prynhawn gan na fydd y cludiant ysgol arferol ar gael.

9. Os penderfynir cau ysgol dylai pennaeth hysbysu unrhyw ddarparwyr cludiant o'r penderfyniad. Dylid hefyd cadarnhau â'r darparwyr y trefniadau ar gyfer y dyddiau dilynol cyn gynted ag y gwneir penderfyniad perthnasol. Os methir â chysylltu â'r darparwyr dylid hysbysu Uned Cludiant (01286 679535) neu Rhian Wyn Williams (01286 679537).

**Staff**

10. Ble mae penderfyniad i beidio agor ysgol dylai staff sydd yn medru teithio i'r ysgol, **heb roi eu hunain mewn sefyllfa sy'n peryglu eu diogelwch**, wneud hynny. Bydd presenoldeb aelodau o staff yn gymorth i ddelio â phlant sydd efallai heb fod yn ymwybodol o benderfyniad i gau ac o'r herwydd yn cyrraedd yr ysgol. Cyfrifoldeb y pennaeth, ar ôl asesu'r amgylchiadau penodol, fydd cyfarwyddo'r staff yma a oes angen iddynt aros ar safle'r ysgol a'i peidio.

11. Mewn amgylchiadau pan fo tywydd garw yn golygu na all gweithiwr unigol fynychu'r man gwaith, bydd angen cytuno efo'r Pennaeth ar un o'r canlynol:

- Gweithio o adref
- Colli cyflog
- Gweithio oriau ychwanegol
- Cymryd gwyliau blynyddol

(Pa un bynnag yw'r mwyaf priodol)

**Graeanu**

12. Er gwybodaeth, mae Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC y Cyngor yn blaenoriaethu cadw ffyrdd yn glir yn y gaeaf, fel a ganlyn:

**Blaenoriaeth 1 –** Priffyrdd ('trunk roads'); Ffyrdd dosbarth 1; ffyrdd y Cyngor (sydd ynghlwm â'r uchod) sydd yn rhoi un mynediad i dref neu bentref, neu i ganolfan sy'n atebol i argyfyngau. Mae hyn yn cynnwys y brifordd tu allan i nifer o ysgolion.

**Blaenoriaeth 2 –** Ffyrdd dosbarth 2; ffyrdd sirol eraill sy'n rhoi mynediad at - ysgolion; canolfannau hyfforddiant; ysbyty/ganolfan dydd; canol y dref; ffyrdd sy'n cysylltu ag ardal busnes tref; ffyrdd eraill 'arbennig' megis gelltydd serth a ffyrdd ar dir uchel.

13. Awgrymir cadw cyflenwad priodol (o ystyried arwynebedd yr ysgol, uchder uwchben y môr, ayyb) o raean unai mewn twb priodol neu unrhyw gynhwysydd addas gyda clo arno. Gellir pwrcasu graean a chwistrellwyr ('spreaders') hefyd ar gyfer y gwaith gan gyflenwyr 'lleol' megis Jewson, Huws Gray Fitlock, a 'Yorkshire Purchasing'. Ni ddisgwylir i staff ysgolion raeanu arwynebeddau mawr - dylid anelu i raeanu'r prif lwybrau o fewn tir yr ysgol.

14. Ar gyfer cael cymorth gyda graeanu, blychau graean gweler e-bost cyswllt cychwynnol.

**CynnalTiroedd@gwynedd.llyw.cymru**

Bydd gofyn i geisiadau am waith argyfwng gael eu hanfon i'r e-bost uchod, gan nodi lleoliad a disgrifiad o'r swm gwaith sydd ei angen, a disgwylir cymaint o rybudd ag sy'n bosib.

Bydd hyn yn cael ei gymryd fel cais am waith ychwanegol a chodir taflen '*dayworks'* am y gwaith. Bydd cost ynghlwm â'r gwaith.

Rhoddir blaenoriaeth i geisio cael llwybr cerdded diogel o'r fynedfa i ddrws yr ysgol fel pwynt cychwynnol.

Bydd gwaith argyfwng yn cael ei ymdrin ag o mor fuan â phosib ac fel mae'r adnoddau ac amodau tywydd yn caniatáu.

Os bydd gofyn am waith ehangach bydd hwn wedyn yn cael ei rhaglennu mor fuan a bydd adnoddau / tywydd yn caniatáu.

Pwyntiau cyswllt ardaloedd (oriau swyddfa 0800-1600):

**Arfon**

WynMorris@gwynedd.llyw.cymru (07920 591360)

**Dwyfor**

BarryEdwards@gwynedd.llyw.cymru (07766 161349)

**Meirionydd**

CliveJones@gwynedd.llyw.cymru (07788 568285)

DavidMeyrickOwen@gwynedd.llyw.cymru (07766 990323)

**Gwynedd**

Geraint W Hughes, Uwch Swyddog Cynnal Tiroedd
GeraintWynHughes@gwynedd.llyw.cymru 07770598987 / 01286 682780
CynnalTiroedd@gwynedd.llyw.cymru